

Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Diwygiadau Canlyniadol ac Amrywiol) 2022

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Adran Addysg Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r Rheoliadau uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Diwygiadau Canlyniadol ac Amrywiol) 2022.

Jeremy Miles AS/MS

Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

22 Medi 2022

1. Disgrifiad

- 1.1 Mae Rheoliadau Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Diwygiadau Canlyniadol ac Amrywiol) 2022 ("Rheoliadau 2022") yn diwygio is-ddeddfwriaeth o ganlyniad i Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ("Deddf 2018").

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

- 2.1 Ni nodwyd unrhyw faterion penodol.

3. Cefndir deddfwriaethol

- 3.1 Mae Rheoliadau 2022 yn cael eu gwneud o dan adrannau 97(1) a (2) a 98(2) o Ddeddf 2018. Mae adran 97 yn rhoi pŵer gwneud rheoleiddio i Weinidogion Cymru i wneud mathau canlyniadol a mathau eraill o ddarpariaeth y maent o'r farn eu bod yn angenrheidiol neu'n hwylus o ganlyniad i Ddeddf 2018. Caiff rheoliadau o'r fath ddiwygio unrhyw ddeddfiad. Yn unol ag adran 98(4) o Ddeddf 2018, mae Rheoliadau 2022 yn ddarostyngedig i weithdrefn negyddol y Senedd.
- 3.2 Mae Rhan 2 o Ddeddf 2018 yn sefydlu'r system statudol newydd ar gyfer diwallu anghenion dysgu ychwanegol plant a phobl ifanc ("y system ADY"). Ar gyfer plant, mae'n disodli'r system y darperir ar ei chyfer ym Mhennod 1 o Ran 4 o Ddeddf Addysg 1996 ("y system AAA"). Dechreuodd y system ADY gael ei gweithredu dros gyfnod o 3 blynedd yn dechrau ar 1 Medi 2021 a bydd y system AAA yn parhau i fod yn gymwys mewn perthynas â rhai plant yn ystod y cyfnod hwnnw.
- 3.3 Fe wnaeth Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 2) 2021 (O.S. 2021/373 (Cy. 116) (C. 12)) gychwyn y system ADY ar 1 Medi mewn perthynas â rhai plant ac mae gorchymynion cychwyn dilynol wedi gwneud darpariaeth ar gyfer cychwyn y system ADY ar 1 Ionawr 2022 ar gyfer rhai carfannau eraill o blant. O ganlyniad, o fis Ionawr ymlaen, bydd niferoedd cynyddol o blant sydd â Chynlluniau Datblygu Unigol ("CDUau").
- 3.4 Hefyd, mae erthygl 8 o'r Gorchymyn hwnnw'n darparu i adran 58 o Ddeddf 2018 i ddod i rym yn llawn ar 1 Medi 2021. Mae adran 58 yn diddymu adran 347 o Ddeddf Addysg 1996. O dan adran 347, roedd gan Weinidogion Cymru y swyddogaeth o gymeradwyo ysgolion annibynnol yng Nghymru fel rhai sy'n addas ar gyfer derbyn plant â datganiadau o anghenion addysgol arbennig, neu mewn perthynas ag ysgol nad yw wedi'i chymeradwyo felly, gan gydsynio i leoli plentyn unigol yno.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

4.1 Diben Rheoliadau 2022 yw gwneud diwygiadau canlyniadol i'r setiau a ganlyn o reoliadau:

- *Rheoliadau Addysg (Anghenion Addysgol Arbennig) (Cymru) 2002*
- *Rheoliadau Grantiau Safonau Addysg (Cymru) 2002*
- *Rheoliadau Addysg (Fforymau Derbyn) (Cymru) 2003*
- *Rheoliadau Cynghorau Ysgol (Cymru) 2005*
- *Rheoliadau Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru 2012*
- *Rheoliadau Dethol Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru 2017*

4.2 Diben y diwygiadau hyn yw sicrhau bod darpariaeth briodol o fewn y setiau o Reoliadau sy'n cael eu diwygio yng ngoleuni'r ffaith bod y system ADY mewn grym yn rhannol ac yn sgil diddymu adran 347 o Ddeddf Addysg 1996.

Rheoliadau Addysg (Anghenion Addysgol Arbennig) (Cymru) 2002

Mae'r Rheoliadau hyn yn ymwneud ag asesu anghenion addysgol arbennig a datganiadau o anghenion o'r fath o dan Ran IV o Ddeddf Addysg 1996.

Mae rheoliad 2 o'r offeryn hwn yn diwygio Rheoliadau Addysg (Anghenion Addysgol Arbennig) (Cymru) 2002 o ganlyniad i adran 347(5) o Ddeddf Addysg 1996 yn cael ei diddymu gan Ddeddf 2018 a ddaeth i rym ar 1 Medi 2021. Ni all y ddarpariaeth fod yn gymwys mwyach gan nad oes gan Weinidogion Cymru bellach y swyddogaeth i gydsynio bod y ddeddfwriaeth yn cael ei diweddarau o ganlyniad i'r diddymiad.

Rheoliadau Grantiau Safonau Addysg (Cymru) 2002

Mae adran 484 o Ddeddf Addysg 1996 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud Rheoliadau sy'n darparu ar gyfer talu grantiau mewn perthynas â gwariant yr eir iddo gan Awdurdodau Lleol mewn cysylltiad â dibenion addysg ac y mae'n ymddangos i Lywodraeth Cymru y dylid annog yr Awdurdodau hynny i fynd i'r gwariant hwnnw er budd addysg yng Nghymru. Mae Rheoliadau Grantiau Safonau Addysg (Cymru) 2002 yn darparu ar gyfer talu grantiau o'r fath.

Mae rheoliad 3 o'r offeryn hwn yn diwygio Rheoliadau Grantiau Safonau Addysg (Cymru) 2002 drwy roi cyfeiriadau at "Anghenion Dysgu Ychwanegol" ac "ADY" yn lle'r cyfeiriadau at "Anghenion Addysgol Arbennig" ac "AAA" yn y drefn honno. Mae'r diwygiadau hefyd yn mewnosod diffiniadau newydd o "Deddf 2018", "*anghenion dysgu ychwanegol*", "*adolygu CDU*" a "*cynllun datblygu unigol*".

Rheoliadau Addysg (Fforymau Derbyn) (Cymru) 2003

Mae Rheoliadau Addysg (Fforymau Derbyn) (Cymru) 2003 yn cynnwys darpariaethau ar gyfer sefydlu fforymau derbyn, a'u rôl yw: ystyried y trefniadau derbyn presennol o fewn ardal fforwm; hyrwyddo cytundeb ar

faterion derbyn; ystyried y llenyddiaeth dderbyn a gynhyrchir gan bob awdurdod derbyn; monitro'r broses o dderbyn plant sydd wedi'u gwahardd, plant sy'n derbyn gofal, plant ag anghenion addysgol arbennig a phlant sy'n cyrraedd y tu allan i'r cylch derbyn arferol; ac ystyried unrhyw faterion derbyn eraill sy'n codi.

Mae rheoliad 4 o'r offeryn hwn yn diwygio Rheoliadau Addysg (Fforymau Derbyn) (Cymru) 2003 drwy fewnosod cyfeiriad at "plant ag anghenion dysgu ychwanegol" a rhoddir yr un ystyr iddo ag yn y Ddeddf 2018.

Rheoliadau Cynghorau Ysgol (Cymru) 2005

Mae Rheoliadau Cynghorau Ysgol (Cymru) 2005 yn nodi'r gofyniad i ysgolion a gynhelir sefydlu cynghorau ysgol, sy'n rhoi cyfle i ddisgyblion drafod a chyflwyno sylwadau ar faterion sy'n ymwneud â'r ysgol neu faterion eraill sy'n peri pryder iddynt. Mae'r diwygiadau'n diweddarau terminoleg yn y Rheoliadau i gynnwys "anghenion dysgu ychwanegol" (ADY).

Mae rheoliad 5 o'r offeryn hwn yn diwygio Rheoliadau Cynghorau Ysgol (Cymru) 2005 drwy fewnosod diffiniad o "Anghenion Dysgu Ychwanegol" (y rhoddir yr un ystyr iddo ag yn y Ddeddf 2018), yn ogystal â rhoi "Dysgu Ychwanegol" yn lle "addysgol arbennig" pan fo'n digwydd yn rheoliadau 2 a 4(4).

Rheoliadau Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru 2012

Mae Rheoliadau Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru 2012 yn nodi'r weithdrefn i'w dilyn mewn achosion gerbron Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru. Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ynghylch arfer awdurdodaeth y Tribiwnlys o dan Ran 4 o Ddeddf Addysg 1996 sy'n ymwneud ag apeliadau ym maes anghenion addysgol arbennig a Phennod 1 o Ran 6 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 sy'n ymwneud â honiadau o wahaniaethu ar sail anabled mewn perthynas â disgyblion ysgol.

Mae rheoliad 6 o'r offeryn hwn yn diwygio Rheoliadau Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru 2012 o ganlyniad i ddiddymu adran 347(5) o Ddeddf Addysg 1996 gan Ddeddf 2018 a ddaeth i rym ar 1 Medi 2021. Ni all y ddarpariaeth fod yn gymwys mwyach gan nad oes gan Weinidogion Cymru bellach y swyddogaeth i gydsynio bod y ddeddfwriaeth yn cael ei diweddarau o ganlyniad i'r diddymiad.

Rheoliadau Dethol Llywydd y Tribiwnlysoedd Cymru 2017

Mae'r Rheoliadau Dethol Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru 2017 hyn yn cynnwys darpariaethau ynghylch y broses ddethol sydd i'w chymhwyso ar gyfer penodi person i swydd Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru. Maent yn gwneud darpariaeth ar gyfer cyfansoddiad panel dethol, ymgynghori gan y panel hwnnw, adrodd ar ei ddetholiad i'r Arglwydd Brif Ustus ac opsiynau'r Arglwydd Brif Ustus wrth benderfynu ar y detholiad hwnnw.

Mae rheoliad 7 o'r offeryn hwn yn diwygio Rheoliadau Dethol Llywydd y Tribiwnlysoedd Cymru 2017 drwy ddiweddarau'r cyfeiriad at enw'r tribiwnlys yng ngoleuni newid enw Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru i'r Tribiwnlys Addysg ac yn arbennig mewn perthynas â darpariaeth y penodir y Llywydd oddi tani.

5. Ymgynghori

- 5.1 Nid oes ymgynghoriad ffurfiol wedi'i gynnal gan mai dim ond diwygiadau technegol canlyniadol y mae'r Rheoliadau 2022 yn eu gwneud.

6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

- 6.1 Ni pharatowyd asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau 2022 gan eu bod yn gwneud diwygiadau technegol i statud ac nad ydynt yn gosod nac yn lleihau costau i fusnesau, elusennau na chyrff gwirfoddol nac i'r sector cyhoeddus.